

Papur Testun Rhif 15 Ynni – Crynodeb

x

- Biomas
- Gwres a phŵer cyfunedig (CHP)
- Treulwyr anaerobig
- Pympiâu gwres o'r ddaear
- Pympiâu gwres o'r aer
- Biodanwydd
- Ynni dŵr
- Nwy tirlenwi

Mae'n bwysig nodi nad dim ond y dechnoleg ei hun y dylid ei hystyried yn y CDLI, gall goblygiadau cynllunio godi o'r seilwaith cysylltiedig hefyd.

Cynhyrchu ynni

Mae'n bwysig cael dull cynaliadwy o gynhyrchu ynni a chyflenwad cyson i gymunedau er mwyn diwallu anghenion preswylwyr a busnesau nawr ac yn y dyfodol, yn ogystal â gwarchod yr amgylchedd.

Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn amlwg. Yn ogystal â gostwng allyriadau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd drwy ddefnyddio llai o ynni a chynyddu'r defnydd a wneir o ynni adnewyddadwy, mae pryderon ynglŷn â lleoliad y seilwaith. Mae'n debyg y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cynyddu achosion o dywydd eithriadol ac mae'n bwysig fod ffynonellau ynni a seilwaith cysylltiedig yn cael eu gosod mewn mannau lle maent yn llai tebygol o gael eu heffeithio, a'u bod yn cael eu dylunio gyda'r problemau posibl hyn mewn cof.

Mae ffynonellau ynni adnewyddadwy presennol yn cynnwys:

- Gwynt ar y tir
- Gwynt ar y môr
- Ynni'r llanw
- Ynni tonnau
- Systemau solar ffotofoltäig
- Systemau solar thermol

Caiff hyn ei gydnabod yn eiddoedd canllawiau, strategaethau a chynllunio Ewropeaidd a chenedlaethol. Mae'n ddaear mae dylanwadau pwysig ar strategaethau ynni ac mae'n ddaear gael eu hymgorffori mewn pwyblygiad lleol a bod yn sail i ddatblygiad CDLI. Mae canllaw gan yr Llywodraeth ddatblygu ddsbarthwyd ym mis Ionawr 2008 yn gosod targed gostyngiad o 80% allyriadau nwyon tŷ gwydr o 1990 erbyn 2030; targed o 20% cynhyrchu ynni adnewyddadwy hanfodol i arbed ynni, er na wedi'i osod. Mae Deddf Newid Hinsawdd 2008 yn gosod targed DU i greu gostyngiad o 80% allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2030. Gall y CDLI nodi lleoliadau

datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel yn briodol drwy gynnal asesiad o botensial yr holl adnoddau ynni adnewyddadwy a'r cyfleoedd i ddefnyddio ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardal gan gynnwys polisiau priodol mewn cynlluniau datblygu'.

Mae ynni yn destun hanfodol i'r thema datblygiad cynaliadwy yn gyffredinol. Gall hefyd effeithio ar agweddau allweddol eraill o'r CDLI sef:

- Seilwaith
- Cyfleoedd cyflogaeth

